**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **12 GORFFENNAF 2012** |
| TEITL | **ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2011/12** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **MYNEGI BARN ARCHWILIO MEWNOL AR YR AMGYLCHEDD REOLAETH GYFFREDINOL O FEWN YR AWDURDOD** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Fel "Pennaeth Archwilio Mewnol" Cyngor Gwynedd yn unol â gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig, mae gofyn arnaf i ddarparu sicrwydd i'r awdurdod ar y system gyflawn o reolaeth fewnol yn yr awdurdod. Wrth roi fy marn, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu i'r Cyngor ydi sicrwydd rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.

1.2 Wrth asesu'r lefel sicrwydd i'w roi, rwyf wedi ystyried pob archwiliad sy'n berthnasol i 2011/12 ac unrhyw weithrediad dilynol parthed archwiliadau o'r cyfnod yma a chyfnodau blaenorol.

## 2. SICRWYDD CYFFREDINOL

**2.1 Yn fy marn i, mae gan Cyngor Gwynedd fframwaith gadarn o reolaeth fewnol er mwyn cynnig sicrwydd rhesymol parthed cyflawniad effeithiol ac effeithlon o amcanion y Cyngor, gan fod y camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol i sefydlu a cryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod argymhellion i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn foddhaol.**

### 2.2 Ystyriaethau

Er mwyn rhoi fy marn ar ddigonolrwydd y systemau rheolaeth fewnol, rwyf wedi ystyried y canlynol:

- Yn gyffredinol, canfuwyd rheolaeth fewnol dda o fewn pob un o wasanaethau'r Cyngor yn unigol.
- Ble canfuwyd gwendidau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol, cafodd y materion hyn eu cywiro gan swyddogion y Cyngor, neu fe dderbyniasant sylw gan y Pwyllgor Archwilio.
- Nid yw Archwilio Mewnol wedi dibynnu ar unrhyw waith gan gyrff archwilio allanol er mwyn dod i'r farn yn yr adroddiad yma.

## 3. GWAITH ARCHWILIO

### Cynllun Archwilio

3.1 Roedd 113 darn o waith wedi eu cynnwys yng nghynllun archwilio addasedig terfynol 2011/12. Cafodd 112 o'r aseiniadau hyn eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2012, sy'n cynrychioli **99.12%** o'r cynllun. At bwrpasau'r dangosydd yma caiff aseiniad ei gyfrif fel bod wedi ei gwblhau lle mae adroddiad/memorandwm terfynol wedi ei ryddhau neu, os nad oes adroddiad/memorandwm, yr aseiniad wedi ei gau a ni ddisgwylir treulio mwy o amser arno.

3.2 Mae'r perfformiad yma yn cymharu â perfformiad 2010/11 o 85.85%, yn erbyn targed o 85%.

3.3 Yr unig archwiliad o gynllun 2011/12 lle na gafodd yr adroddiad ei ryddhau'n derfynol erbyn 31 Mawrth 2012 oedd *Swyddogaethau yn y Broses Monitro Gwariant Cyfalaf*; rhyddhawyd yr adroddiad drafft ar 15 Mawrth 2012. Y rheswm dros beidio ryddhau'r adroddiad cyn diwedd y flwyddyn ariannol oedd oherwydd fod y trefniadau o fonitro gwariant yn destun adolygiad gan grwp o Brif Swyddogion, a cytunwyd i rhyddhau'r adroddiad terfynol ar ôl ystyried canlyniad yr adolygiad yma.

3.4 Mae rhestr o'r archwiliadau o gynllun 2011/12 sydd wedi cyfrannu at y farn a fynegir yn mharagraff 2.1 wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

3.5 Ble'n berthnasol, caiff adroddiadau archwiliad mewnol eu categoreiddio er mwyn rhoi barn archwilio gyffredinol ar amgylchedd reolaeth y system neu sefydliad benodol dan sylw.

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

3.6 Cafodd pob argymhelliad a gyflwynwyd o fewn yr adroddiadau eu gwneud er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol sydd yn lliniaru risgiau gweithredol, ac i sefydlu ymarfer da.

3.7 O'r 112 aseiniad yng nghynllun archwilio 2011/12 a gafodd eu cwblhau, dyfarnwyd y categorïau barn canlynol:

| **Categori Barn** | **Nifer archwiliadau** |
|---|---:|
| A | 13 |
| B | 53 |
| C | 14 |
| CH | 1 |
| Dim Categori | 31 |
| **Cyfanswm** | **112** |

3.8 O'r adroddiadau perthnasol i gynllun archwilio 2011/12 a dderbyniodd gategori Barn 'A' i 'CH', derbyniodd 81.5% ohonynt farn 'A' neu 'B', sydd ychydig yn is na'r ffigwr cyfatebol o 84% yn 2010/11.

3.9 Un archwiliad yn unig a dderbyniodd farn 'CH', sef *Cysoni Incwm Parcio a Dirwyon*. Adroddwyd ar hyn i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 29 Medi 2011, a bu i swyddogion o'r Adran Rheoleiddio fynychu cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011 i roi cyflwyniad ar y cynnydd i wella'r rheolaethau.

3.10 Caiff crynodeb gweithredol adroddiadau llawn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar ôl i'r adroddiad terfynol gael ei gytuno gyda'r cleient a'i ryddhau. Lle caiff memorandwm ei anfon yn hytrach nag adroddiad llawn, a lle nad oes categori barn, mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn crynodeb byr a ddarganfyddiadau'r archwiliadau perthnasol. Yr unig eithriad i hyn gyda gwaith o'r cynllun yw gwaith sy'n cael ei gynnal yn barhaus trwy'r flwyddyn, megis adolygiadau o gyfrifon terfynol contractau.

3.11 Mae'r tabl isod yn dangos pa gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a dderbyniodd fanylion yr archwiliadau o gynllun 2011/12. Mae dyddiadau cyfarfodydd perthnasol y Pwyllgor Archwilio hefyd wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

| **Dyddiad Rhyddhau'r Adroddiad / Memorandwm Terfynol** | **Dyddiad Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio** |
|---|:---:|
| 1 Ebrill 2011 – 31 Mai 2011 | 12 Gorffennaf 2011 |
| 1 Mehefin 2011 – 31 Awst 2011 | 29 Medi 2011 |
| 1 Medi 2011 – 31 Hydref 2011 | 17 Tachwedd 2011 |
| 1 Tachwedd 2011 – 31 Rhagfyr 2011 | 13 Chwefror 2012 |
| 1 Ionawr 2012 – 31 Mawrth 2012 | 12 Gorffennaf 2012 |

**Addasiadau i'r Cynllun**

3.12 Adroddwyd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn ar addasiadau i'r cynllun archwilio.

**Gwaith Dilyniant**

3.13 Rhyddhawyd memorandwm terfynol ar gyfer 15 o archwiliadau dilyniant yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2011 i 31 Mawrth 2012. Un o'r archwiliadau yma yn unig a dderbyniodd farn "Anfoddhaol" – derbyniodd y gweddill (ar wahân i un oedd heb gategori barn am fod trefniadau wedi newid) farn "Derbyniol" neu "Rhagorol". Mae hyn yn awgrymu fod trefniadau cadarn o fewn yr awdurdod i weithredu argymhellion archwilio er mwyn cryfhau rheolaethau mewnol a rheoli risg.

## 4. ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL

**Staffio a chymwysterau**

4.1 Mae gan 3 o swyddogion Archwilio Mewnol gymhwyster CIPFA llawn, sef yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg a dau arweinydd tîm, ac mae gan yr Uwch Archwiliwr (TG) gymhwyster archwilio cyfrifiaduron ISACA. Cymhwysodd arweinydd tîm arall yn aelod llawn o'r ACCA yn agos i ddiwedd y flwyddyn.

**Y defnydd a wneir o adnoddau staff**

4.2 Mae Atodiad 2 yn cynnwys dadansoddiad o ddefnydd amser swyddogion Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2012. Tynnir sylw'r Pwyllgor i'r canlynol:

- O safbwynt hyfforddiant proffesiynol, roedd dau Archwiliwr yn astudio am gymhwyster ACCA, ac Archwiliwr oedd yn astudio am gymhwyster CIPFA.

- Bu cynnydd yn y nifer o ddyddiau a gollwyd oherwydd salwch, o 24 yn 2010/11 i 62 yn 2011/12 (ond yn parhau'n welliant sylweddol ar 2009/10, pan gollwyd 164 diwrnod). Roedd hyn yn bennaf oherwydd dau gyfnod o salwch hirdymor.

- Bu lleihad bychan yng nghyfanswm nifer y dyddiau ar dreuliwyd ar waith cynhyrchiol i Cyngor Gwynedd, o **1,897** diwrnod rhwng 1 Ebrill 2010 a 31 Mawrth 2011 i **1,821** diwrnod am yr un cyfnod yn 2011/12. Mae hyn yn rhannol oherwydd cynnydd bychan mewn % yng nghyfanswm yr amser a dreuliwyd ar weithgareddau di-gynnyrch, ac yn rhannol oherwydd fod mwy o amser wedi ei dreulio ar ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid allanol – ond mae hyn yn denu incwm ychwanegol i'r Cyngor.

- Bu ymdrech fwriadol dros y blynyddoedd diweddar i fynd i'r afael â nifer y ddyddiau y bu'n rhaid eu defnyddio yn cwblhau gwaith y flwyddyn flaenorol, tra'n cynnal canran uchel o'r cynllun sydd yn cael ei gwblhau. Canlyniad yr ymdrech yma yw fod nifer y ddyddiau y bu'n rhaid eu defnyddio yn cwblhau gwaith y flwyddyn flaenorol wedi lleihau o 360 diwrnod yn 2009/10 i 131 yn 2010/11 ac yna i 5 diwrnod yn unig yn 2011/12.

## 5. PERFFORMIAD ARCHWILIO

5.1 Roedd canlyniadau dangosyddion perfformiad y gwasanaeth archwilio mewnol yn ystod 2010/11 fel a ganlyn:

| **Disgrifiad dangosydd** | **Perfformiad 2010/11** | **Targed 2011/12** | **Canlyniadau 2011/12** |
|---|---|---|---|
| Canran archwiliadau yn y Cynllun Archwilio sydd unai wedi eu cau neu sydd ag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau | 85.85% | 95% | **99.12%** |
| % archwiliadau a gwblhawyd o fewn amser yn y cynllun ('tolerance' 10%) | 72% | 70% | **56%** |
| % o waith dilyniant sydd yn cael ei gwblhau o fewn amserlen a bennwyd ar adeg yr archwiliad gwreiddiol | 100% | 80% | **87.5%** |
| Nifer y Safonau Archwilio ble ceir cydymffurfiaeth llawn yn ôl adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r gwasanaeth | 10 | 9 | **10** |
| Dyddiau cynhyrchiol fel % o'r cyfanswm sydd ar gael (heb gynnwys gwyliau) | 73.35% | 71.7% | **73.00%** |
| Cyfran o'r adroddiadau dilyniant Archwilio Mewnol yn cyrraedd barn "Derbyniol" neu well (mesur corfforaethol) | 93.75% | 90% | **92.86%** |

5.2 Yr unig ddangosydd ble na gyrhaeddwyd y targed oedd % *archwiliadau a gwblhawyd o fewn amser yn y cynllun.* Hyd yn oed ar ôl caniatáu goddefiant o 10%, gwelir mai 56% o'r aseiniadau yn unig oedd wedi eu cwblhau o fewn yr amser oedd wedi ei gynllunio ar eu cyfer. Fodd bynnag, nid yw'r perfformiad y mesur hwn wedi ei cael effaith andwyol ar gwblhau'r cynllun, gan fod nifer o archwiliadau eraill wedi cael eu cwblhau mewn llai na'r amser yn y cynllun. Er hyn, mae angen parhaus i ystyried perfformiad, yn ogystal â'r amser a ganiateir yn y cynllun ar gyfer darnau unigol o waith.

## 6. CYDYMFFURFIAETH Â'R CÔD YMARFER

6.1 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn mesur Archwilio Mewnol yn erbyn gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol 2006. Adroddodd Swyddfa Archwilio Cymru yng Ngorffennaf 2011 fod gan Cyngor Gwynedd wasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol sy'n cydymffurfio ar y cyfan â safonau y Côd Ymarfer.

6.2 Roedd adroddiad y archwiliwr allanol yn nodi fod Archwilio Mewnol wedi cyrraedd y safonau canlynol:

- Cwmpas yr Archwiliad Mewnol
- Moeseg i Archwilwyr Mewnol
- Pwyllgor Archwilio
- Cydberthnasau
- Staffio, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus
- Strategaeth Archwilio a Chynllunio
- Cyflawni gwaith archwilio
- Gofal Proffesiynol Priodol
- Cyflwyno Adroddiadau
- Perfformiad, ansawdd ac effeithiolrwydd

Adroddwyd mai yn rhannol yr oedd Archwilio Mewnol yn cyrraedd y safon Annibyniaeth, oherwydd cyfrifoldebau eraill yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn ychwanegol i Archwilio Mewnol. Mae hyn yn fater sydd wedi ei adrodd i a'i nodi gan y Pwyllgor Archwilio ers sawl blwyddyn.

6.3 Roedd yr adroddiad yn cynnwys un argymhelliad. Mae'r tabl isod yn dangos yr ymateb i'r argymhelliad yma:

| Argymhelliad | | Sylwadau / Cynnydd |
|---|---|---|
| A1 | Dylid datblygu protocol ffurfiol rhwng Archwilio Mewnol ac Archwilio Allanol. | Datblygwyd y protocol ar y cyd, ac fe'i gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011. |

## 7. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2012/13

7.1 Cyflwynwyd cynllun archwilio mewnol drafft ar gyfer 2012/13 i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 13 Chwefror 2012. Mae'r cynllun terfynol wedi ei gynnwys yn Atodiad 3.

## 8. ARGYMHELLIAD

8.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad yma fel adroddiad blynyddol ffurfiol yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn unol â gofynion y Côd Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig.

# Cynllun Archwilio Mewnol 2011/12

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | |
| Rheolaeth Cynllun Oriau Ystwyth a "TOIL" | **B** | 29 Medi 2011 |
| Gweinyddu Costau Teithio | **B** | 17 Tachwedd 2011 |
| Swyddogaethau Rheolwyr Safle | **Dim Categori** | 29 Medi 2011 |
| Cyfrannu at baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol | **Dim Categori** | 29 Medi 2011 |
| Trefniadau Atal Twyll - "Llyfr Coch" CIPFA | **Dim Categori** | 13 Chwefror 2012 |
| Cynnal Asesiadau Ariannol ar Gwmnïoedd - NWPP Gweithiau Bychain | **Dim Categori** | 29 Medi 2011 |
| Cynnal Asesiadau Ariannol ar Gwmnïoedd - Fframwaith ACGCC | **Dim Categori** | 12 Gorffennaf 2012 |
| Cyn-stoc Tai - Arian Dargadw | **Dim Categori** | |
| Rheoli Contractau - Ysgol yr Hendre | **Dim Categori** | 13 Chwefror 2012 |
| Rheoli Contractau - Adfywio Canol Blaenau Ffestiniog | **Dim Categori** | |
| Rheoli Contractau - Adfywio Ffisegol yng ngogledd Cymru | **Dim Categori** | 12 Gorffennaf 2012 |
| Trefniadau Cofnodi a Rheoli Salwch | **C** | 13 Chwefror 2012 |
| Deddf Diogelu Data - Teledu Cylch Cyfyng | **C** | 29 Medi 2011 |
| Prydlondeb Taliadau | **Dim Categori** | 12 Gorffennaf 2012 |
| NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) | **Dim Categori** | |
| Arbedion Effeithlonrwydd | **B** | 29 Medi 2011 |
| **ADDYSG** | | |
| **Adnoddau** | | |
| Grant Estyniad Rhaglen Datblygu Meddwl ac Asesu ar Gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru | **A** | 17 Tachwedd 2011 |
| Grant y Fenter Brecwastau Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd | **B** | 29 Medi 2011 |
| Grant Ysgolion Ffocws Gymunedol Llywodraeth Cynulliad Cymru | **B** | 29 Medi 2011 |
| Grant Gwisg Ysgol | **B** | 13 Chwefror 2012 |
| Grant Prosiectau Peilot yn Ymwneud ag Ymddygiad a Phresenoldeb | **C** | 12 Gorffennaf 2012 |
| Grant Llwybrau Dysgu 14-19 | **A** | 13 Chwefror 2012 |
| Grant Datblygu Ymgynghoriaeth | **C** | 12 Gorffennaf 2012 |
| Grant Addysg ôl-16 | **Dim Categori** | 13 Chwefror 2012 |
| Diogelwch TG mewn ysgolion | **C** | 12 Gorffennaf 2012 |
| **Ar draws yr adran** | | |
| Rheoli Prosiect Cynllun Trefniadaeth Ysgolion | **A** | 12 Gorffennaf 2012 |
| **Consortiwm Addysg** | | |
| Consortiwm Addysg Gogledd-Orllewin Cymru | **B** | 12 Gorffennaf 2012 |
| **Ysgolion** | | |
| Allanoli Arlwyo Ysgolion - Atebolrwydd | **B** | 12 Gorffennaf 2012 |
| Canolfan Hamdden Blaenau Ffestiniog | **B** | 12 Gorffennaf 2012 |
| Ysgolion Cynradd - Rheolaeth Gyllidebol | **C** | 17 Tachwedd 2011 |
| Ysgolion Cynradd - Llywodraethu | **B** | 12 Gorffennaf 2012 |
| Ysgolion Cynradd - Trefniadau Lleihau Baich Gwaith Athrawon | **C** | 12 Gorffennaf 2012 |
| **ADNODDAU DYNOL** | | |
| **Iechyd a Diogelwch** | | |
| Iechyd a diogelwch - tripiau ysgol | **C** | 13 Chwefror 2012 |

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| **CYLLID** | | |
| **Archwilio a Risg** | | |
| Uned Ymchwiliadau Budd-dal | **B** | 17 Tachwedd 2011 |
| **Ariannol** | | |
| Ardystio a Cywirdeb Codio Anfonebau o fewn Adrannau'r Cyngor | **Dim Categori** | 13 Chwefror 2012 |
| System Taliadau - Newid Data Sefydlog | **B** | 29 Medi 2011 |
| System Taliadau - Trefniadau Rhannu Dyletswyddau | **A** | 17 Tachwedd 2011 |
| Taliadau - Statws Cyflogaeth | **Dim Categori** | 12 Gorffennaf 2012 |
| **Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys** | | |
| System Fancio Electronig | **A** | 13 Chwefror 2012 |
| **Cyfrifeg** | | |
| Prif System Gyfrifo | **B** | 12 Gorffennaf 2012 |
| Cysoni Banc - Adolygiad o Reolaethau Allweddol | **B** | 12 Gorffennaf 2012 |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | |
| System Gyflogau - Cyflogau Misol Gweithwyr Llaw | **B** | 13 Chwefror 2012 |
| Cyflogau - Gweinyddu Tâl Salwch Statudol | **Dim Categori** | 12 Gorffennaf 2012 |
| Gordaliadau Pensiwn | **Dim Categori** | 13 Chwefror 2012 |
| Pensiynau - Adroddiad Blynyddol | **B** | 12 Gorffennaf 2012 |
| **Refeniw** | | |
| Budd-daliadau - Cinio Ysgol am Ddim | **B** | 13 Chwefror 2012 |
| Budd-daliadau - Lwfans Gwisg Ysgol | **B** | 13 Chwefror 2012 |
| Treth Cyngor - Adennill a Gorfodaeth | **B** | 17 Tachwedd 2011 |
| Treth Cyngor - Casgliadau ac Ad-daliadau | **A** | 29 Medi 2011 |
| Systemau Trethiant - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **A** | 12 Gorffennaf 2012 |
| Treth Di-Annedd - Adennill a Gorfodaeth | **B** | 17 Tachwedd 2011 |
| **DARPARU A HAMDDEN** | | |
| **Cefnogaeth Busnes a Gweinyddiaeth** | | |
| Defnydd Cyfrifiaduron Llaw gan Ofalwyr Cartref | **B** | 13 Chwefror 2012 |
| **Hamdden** | | |
| Grant Cynllun Cyfeirio i Ymarfer Cenedlaethol | **Dim Categori** | 29 Medi 2011 |
| Trefniadau Bancio yn y Canolfannau Hamdden | **B** | 13 Chwefror 2012 |
| Datblygu Chwaraeon | **A** | 29 Medi 2011 |
| **Preswyl a Dydd** | | |
| Cartrefi Preswyl y Cyngor - Trefniadau Ariannol | **B** | 17 Tachwedd 2011 |
| Cartrefi Preswyl y Cyngor - Trefniadau Diogelwch | **B** | 17 Tachwedd 2011 |
| Tai gyda Chefnogaeth | **B** | 12 Gorffennaf 2012 |
| **DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL** | | |
| **Cofrestru** | | |
| Gwasanaeth y Crwner | **B** | 17 Tachwedd 2011 |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | |
| Cronfa'r Degwm | **C** | 17 Tachwedd 2011 |
| **Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau** | | |
| Amgueddfa Lloyd George | **B** | 13 Chwefror 2012 |
| Amgueddfa ac Oriel Gwynedd | **B** | 13 Chwefror 2012 |
| Neuadd Dwyfor | **B** | 29 Medi 2011 |

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| **Ieuenctid** | | |
| Neuaddau Pentref - Cynllun Gweithredu | **A** | 12 Gorffennaf 2012 |
| **Prosiectau Sylweddol** | | |
| Cynllun Canolfan Rhagoriaeth Eryri | **B** | 13 Chwefror 2012 |
| **Sgiliau a mentergarwch** | | |
| Llwyddo yng Ngwynedd | **B** | 12 Gorffennaf 2011 |
| **Strategaeth a Datblygu** | | |
| Grantiau Clybiau Ieuenctid - Grant Cyfalaf | **B** | 29 Medi 2011 |
| Grantiau Clybiau Ieuenctid - Grant Refeniw | **B** | 29 Medi 2011 |
| **Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer** | | |
| Digwyddiadau | **B** | 17 Tachwedd 2011 |
| **GOFAL CWSMER** | | |
| **Gwybodaeth** | | |
| Diogelwch Gwybodaeth | **C** | 12 Gorffennaf 2012 |
| **Llyfrgelloedd** | | |
| System Rheoli Defnydd o'r Rhyngrwyd mewn Llyfrgelloedd | **B** | 29 Medi 2011 |
| **Technoleg Gwybodaeth** | | |
| System Rheoli Perthynas Cwsmer | **B** | 12 Gorffennaf 2012 |
| Technoleg Rhithwir | **B** | 17 Tachwedd 2011 |
| Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth | **Dim Categori** | 12 Gorffennaf 2012 |
| **Tir ac Eiddo'r Cyngor** | | |
| Rheolaeth Asbestos | **B** | 29 Medi 2011 |
| Manddaliadau | **C** | 13 Chwefror 2012 |
| **GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| Rheolaeth Prosiect, Gwasanaethau Cymdeithasol | **Dim Categori** | |
| Cyllideb y Cynllun Lleoli Oedolion | **A** | 17 Tachwedd 2011 |
| Grant Goruchwyliaeth Ddwys ac Arsylwi | **Dim Categori** | 29 Medi 2011 |
| Grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol | **Dim Categori** | |
| Grant Datblygu Gweithio Trawsnewidiol yng Nghymru | **Dim Categori** | 29 Medi 2011 |
| Comisiynu ar y Cyd gyda Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr | **C** | 12 Gorffennaf 2012 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol - Diogelwch Ffeiliau a Gwybodaeth Papur | **B** | 12 Gorffennaf 2012 |
| Modiwl Ariannol RAISE | **A** | 12 Gorffennaf 2012 |
| **Busnes** | | |
| Trefn Gwyno Gwasanaethau Cymdeithasol | **B** | 13 Chwefror 2012 |
| Contractau Refeniw Gwasanaethau Cymdeithasol | **B** | 29 Medi 2011 |
| **Plant a Theuluoedd** | | |
| Plant - Maethu | **A** | 17 Tachwedd 2011 |
| Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | **B** | 13 Chwefror 2012 |
| System Integredig Plant | **Dim Categori** | 17 Tachwedd 2011 |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | |
| **Fflyd** | | |
| Tacograffau a Diogelwch Disel | **B** | 17 Tachwedd 2011 |
| **Gwaith Priffyrdd** | | |
| Trefniadau ar alwad ac ar ddyletswydd Priffyrdd a Bwrdeistrefol | **B** | 29 Medi 2011 |

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| Defnydd Is-Gontractwyr, Uned Darparu Gwaith | **B** | 13 Chwefror 2012 |
| Cynnal a Chadw'r Gaeaf | **B** | 29 Medi 2011 |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | |
| Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus 2010-11 | **Dim Categori** | 17 Tachwedd 2011 |
| Grant Trefi Taclus | **Dim Categori** | 12 Gorffennaf 2012 |
| Prosiect Gorfodaeth Amgylcheddol | **B** | 13 Chwefror 2012 |
| Casglu data gwastraff | **B** | 17 Tachwedd 2011 |
| **RHEOLEIDDIO** | | |
| **Amgylchedd** | | |
| Grant Mynediad i'r Arfordir (WEFO) | **Dim Categori** | 12 Gorffennaf 2012 |
| Cronfa Datblygiad Cynaliadwy AHNE Llyn | **Dim Categori** | 13 Chwefror 2012 |
| Amgylcheddol - Cynnal y "Gazetteer" | **Dim Categori** | 29 Medi 2011 |
| **Cynllunio** | | |
| Rheolaeth Datblygu - Penderfyniadau Dirprwyedig | **A** | 13 Chwefror 2012 |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | |
| Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch | **C** | 17 Tachwedd 2011 |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | |
| Grant ERDF Prosiect Adfywio Ffisegol yng Ngogledd Cymru | **Dim Categori** | 12 Gorffennaf 2012 |
| Grant TraCC | **Dim Categori** | 12 Gorffennaf 2012 |
| Prosiect Pont Briwet | **Dim Categori** | 29 Medi 2011 |
| Cysoni Incwm Parcio a Dirwyon | **CH** | 29 Medi 2011 |
| **STRATEGOL A GWELLA** | | |
| **Caffael ac Effeithlonrwydd** | | |
| Caffael Cynaliadwy | **B** | 29 Medi 2011 |
| **Democratiaeth** | | |
| Treuliau Aelodau | **B** | 29 Medi 2011 |
| Trefniadau TG i aelodau | **C** | 29 Medi 2011 |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | |
| **Adeiladau ac Amgylcheddol** | | |
| Gwasanaethau Eiddo - Penodi Contractwyr | **B** | 17 Tachwedd 2011 |
| **Ar draws yr adran** | | |
| Dethol Contractwyr - Amddiffyn yr Arfordir | **B** | 12 Gorffennaf 2012 |
| **Peirianneg a Rheolaeth Adeiladu** | | |
| Y Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu - Ffioedd | **B** | 12 Gorffennaf 2011 |

**Crynodeb o nifer yr adroddiadau ym mhob categori barn, Cynllun 2011/12:**

| | Nifer archwiliadau |
|---|---|
| A | **13** |
| B | **53** |
| C | **14** |
| CH | **1** |
| Dim Categori | **31** |
| **Cyfanswm** | **112** |

## Dadansoddiad Amser Archwilio Mewnol 1 Ebrill - 31 Mawrth:

| 2010/11 | | 2011/12 |
|---|---|---|
| **3,058** | **Cyfanswm Dyddiau** | **3,060** |
| 444 | Llai Gwyliau (Statudol ac Anstatudol) | 467 |
| **2,614** | **Cyfanswm y Dyddiau Ar Gael** | **2,593** |
| | Llai: | |
| 35 | Gwyliau Arbennig | 36 |
| 24 | Salwch | 62 |
| 49 | Hyfforddiant Proffesiynol | 35 |
| 84 | Hyfforddiant Swydd | 35 |
| **2,422** | **Dyddiau ar gael** | **2,425** |
| | Llai Amser Di-gynnyrch: | |
| 14 | Adolygu Perfformiad (Gwerthuso) | 13 |
| 8 | Apwyntiadau Meddygol | 15 |
| 35 | Cofnodi a Rheoli Amser | 39 |
| 120 | Cyfarfodydd a Phwyllgorau | 108 |
| 2 | Cyfarfodydd-Gwaith ar y cyd a SAC | 7 |
| 7 | Cyflwyno Hyfforddiant | 5 |
| 1 | Cynnal Cyfweliadau | 0 |
| 59 | Gwaith Cefndirol | 61 |
| 40 | Gweinyddiaeth ayb. | 53 |
| 17 | Pwyllgor Archwilio | 23 |
| 130 | Rheolaeth Archwilio Mewnol | 134 |
| 5 | Rheoli Absenoldebau | 5 |
| 0 | Tasgau Cydweithio Gogledd Cymru | 15 |
| 6 | Trafferthion TG | 5 |
| 0 | Ymarferiadau Tân | 1 |
| 62 | Llai: gwaith rheolaethol arall (Uwch Reolwr) | 51 |
| **1,916** | **Cyfanswm Dyddiau Cynhyrchiol** | **1,890** |
| 19 | Gwaith APCE | 40 |
| 0 | Gwaith CTE | 29 |
| **1,897** | **Cyfanswm dyddiau cynhychiol, Cyngor Gwynedd** | **1,821** |

## Dadansoddiad o ddefnydd dyddiau cynhyrchiol Cyngor Gwynedd:

| 2010/11 | Math o waith | 2011/12 |
|---|---|---|
| 1,358 | Gwaith Cynllun blwyddyn gyfredol | 1,523 |
| 131 | Cwblhau gwaith blwyddyn flaenorol | 5 |
| 121 | Cychwyn gwaith blwyddyn ddilynol | 38 |
| 78 | Cynghori | 60 |
| 80 | Gwaith dilyniant | 62 |
| 129 | Gwaith Ymatebol/Archwiliadau Arbennig | 133 |
| **1,897** | | **1,821** |

# Cynllun Archwilio Mewnol 2012/13

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | |
| | Trefniadau Ymdrin â Gohebiaeth | **30.00** |
| | Defnydd Ynni | **20.00** |
| | Prosiect "Y Gweithlu" | **20.00** |
| | Swyddogaethau Rheolwyr Safle | **20.00** |
| | Cyfrannu at baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol | **10.00** |
| | Cynnal Asesiadau Ariannol ar Gwmnïoedd - Fframwaith ACGCC PQQ2 | **5.00** |
| | Cyn-stoc Tai - Arian Dargadw | **5.00** |
| | Grantiau (Grwp Amgylchedd) | **30.00** |
| | Cofnodi a Rheoli Gwyliau | **25.00** |
| | Prydlondeb Taliadau - Effeithlonrwydd Tracio Anfonebau | **10.00** |
| | Cyllidebau Lleol | **10.00** |
| | Cardiau Credyd Barclaycard | **14.00** |
| | NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) | **25.00** |
| | Recriwtio - Profion Hunaniaeth | **15.00** |
| | Cytundeb Canlyniadau | **20.00** |
| **ADDYSG** | | |
| **Adnoddau** | | |
| | Grant Estyniad Rhaglen Datblygu Meddwl ac Asesu ar Gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru | **6.00** |
| | Grant Blas am Oes | **10.00** |
| | Grant y Fenter Brecwastau Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd | **8.00** |
| | Dyraniad Gofal Plant Grant Ysgolion Ffocws Gymunedol | **10.00** |
| | Grant Trosglwyddo Rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3 | **5.00** |
| | Grant Addysg ôl-16 | **1.00** |
| | Gwasanaeth Llefrith i Ysgolion | **10.00** |
| | Rheoli cyllidebau cynnal adeiladau Ysgolion Uwchradd - gwerth am arian | **10.00** |
| **Ar draws yr adran** | | |
| | Penodi Ymgynghorwyr Rheoli, Adran Addysg | **10.00** |
| **Ysgolion** | | |
| | Penodiadau Llanw | **15.00** |
| | Ysgolion Cynradd – Trefn diswyddo oherwydd gormodedd | **22.00** |
| | Ysgolion Cynradd - Diogelwch Gwybodaeth | **22.00** |
| | Ysgolion Cynradd - Lwfansau Athrawon ac Amodau Gwaith Penaethiaid | **20.00** |
| **ADNODDAU DYNOL** | | |
| **Uned Cefnogol** | | |
| | Gweinyddu Benthyciadau Car | **10.00** |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| **ASIANTAETH CEFNFFYRDD GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU** | | |
| | Asiantaeth Cefnffyrdd - anfonebau rhwng cynghorau | **15.00** |
| **CYLLID** | | |
| **Archwilio a Risg** | | |
| | Rheoli Risg Corfforaethol | **10.00** |
| **Ariannol** | | |
| | System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **10.00** |
| | System eGaffael | **20.00** |
| | System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **10.00** |
| **Cyfrifeg** | | |
| | Prif System Gyfrifo - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **10.00** |
| | Prif System Gyfrifo - Project Uwchraddio | **15.00** |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | |
| | Cyflogau - rhediadau BACS | **5.00** |
| | System Gyflogau - Adroddiadau Eithriad | **5.00** |
| | System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **10.00** |
| | System Gyflogau - Paramedrau ac Algorithmau | **15.00** |
| | System Gyflogau - Didyniadau Treth ac Yswiriant Cenedlaethol | **15.00** |
| | Cyflogau Gofalwyr Cartref - Rhyngwyneb Cyborg - CACI | **10.00** |
| **Refeniw** | | |
| | System paye.net | **10.00** |
| | Derbyn incwm mewn swyddfeydd | **10.00** |
| | Budd-daliadau Dewisol | **15.00** |
| | System Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **10.00** |
| | System Treth Cyngor - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **10.00** |
| | Rheolaethau TG Systemau Treth Cyngor, Budd-daliadau a Treth Di-annedd (Dilyniant i archwiliad SAC) | **10.00** |
| | System Treth Di-Annedd - Adolygiad o Reolaethau Allweddol | **5.00** |
| **DARPARU A HAMDDEN** | | |
| **Cefnogaeth Busnes a Gweinyddiaeth** | | |
| | Sicrwydd Ansawdd Data a Gwybodaeth | **20.00** |
| **Glanhau a Gofalwyr Adeiladau** | | |
| | Goruchwyliaeth Rheolwyr ar Ddyletswydd | **15.00** |
| **Preswyl a Dydd** | | |
| | Tai gyda Chefnogaeth - Cyfrifon Imprest a Cyfrif y ty | **20.00** |
| | Prosiect Rhesymoli Darpariaeth Anabledd Dysgu | **10.00** |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | |
| | Rheoli Contractau - Adfywio Canol Blaenau Ffestiniog | **10.00** |
| | Cynllun Genesis | **15.00** |
| | Prosiect Llwybr Cyflogi Prentisiaid Ifanc | **15.00** |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| | Cynllun Taith i Waith | **10.00** |
| | Cymunedau'n Gyntaf | **20.00** |
| **Ieuenctid** | | |
| | Clybiau Ieuenctid | **20.00** |
| **Prosiectau Sylweddol** | | |
| | Rheoli Contractau - Academi Hwylio | **10.00** |
| **Sgiliau a mentergarwch** | | |
| | Llwyddo'n Lleol | **20.00** |
| | Cynllun "Potensial" | **10.00** |
| **Strategaeth a Datblygu** | | |
| | Grantiau Clybiau Ieuenctid - Grant Refeniw | **5.00** |
| **GOFAL CWSMER** | | |
| **Technoleg Gwybodaeth** | | |
| | Rheoli Newid | **15.00** |
| | Cleiant Tenau | **10.00** |
| | Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth | **10.00** |
| | Cydgyfeiriant Rhwydwaith | **20.00** |
| **Tir ac Eiddo'r Cyngor** | | |
| | Rheoli Contractau - Ysgol Ardal Bro Dysynni | **10.00** |
| | Cynllun Rheoli Asedau | **20.00** |
| | Trefniadau Gwarchod rhag Legionella | **20.00** |
| **GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| | Partneriaeth Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol | **10.00** |
| | Tai Gofal Ychwanegol | **20.00** |
| | Mesurau Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol - Cywirdeb Data Craidd | **25.00** |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwireddu Arbedion | **20.00** |
| | Grant Pecyn Camau Cyntaf | **5.00** |
| | Comisiynu ar y Cyd gyda BILIPBC | **25.00** |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Diogelwch Ffeiliau a Gwybodaeth | **20.00** |
| | Cyllid Cleientau - Bancio Rhyngrwyd | **10.00** |
| | Uned Cefnogi Systemau Gofal | **10.00** |
| **Busnes** | | |
| | Trefniadau Contractio Gwasanaethau Cymdeithasol | **40.00** |
| | Gwasanaeth Broceriaeth | **15.00** |
| **Plant a Theuluoedd** | | |
| | Llety i Bobl Ifanc yn gadael gofal | **15.00** |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | |
| **Fflyd** | | |
| | Gweithdai - Goruchwyliaeth Iechyd a Diogelwch | **10.00** |
| **Gwaith Bwrdeistrefol** | | |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| | Glanhau Strydoedd | **15.00** |
| **Gwaith Priffyrdd** | | |
| | Gweithfeydd - Cytundeb A55 | **25.00** |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | |
| | Cynllun GwyriAD | **20.00** |
| **RHEOLEIDDIO** | | |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | |
| | Uned Trwyddedu | **12.00** |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | |
| | Prosiect Pont Briwet | **10.00** |
| | Partneriaeth TraCC | **15.00** |
| | Cludiant Cymunedol | **20.00** |
| **STRATEGOL A GWELLA** | | |
| **Democratiaeth** | | |
| | Cyfarpar gan Cyn-aelodau | **15.00** |
| | Trefniadau TG i aelodau | **15.00** |
| **Perfformiad a Chraffu** | | |
| | Gwireddu Prosiectau Arbed | **15.00** |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | |
| **Peirianneg a Rheolaeth Adeiladu** | | |
| | Cymhariaeth Cyfrifon Terfynol a Tendrau Gwreiddiol | **10.00** |
| | Penodi Contractwyr Peirianyddol | **20.00** |
| | Pontydd | **10.00** |
| | | **1,370.00** |